Adroddiad Cyfarfod 10:06:15
Ymweliad - Yr Ysgwrn

I gloi gweithgareddau'r tymor am eleni bu i 29 o aelodau ymweld a'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd. Cawsom noson hynod o braf gan fwynhau y golygfeydd godidog o'n cwmpas. Cawsom groeso cynnes gan Gerald Williams a'n tywys o gwmpas gan ddwy aelod hynaws o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

I ddilyn, cawsom swper ardderchog yn Nhafarn yr Afr, Glandwyfach. Diolch i Derfel Owens am ei yrru gofalus i'n cludo yno.

Dymunwyd yn dda i Richard Llwyd Jones, gŵr Mary, oedd yn cael llawdriniaeth ym Manceinion ac anfonwyd cofion at Brian Sharpe a John Evans.

Dymunwyd siwrnai dda i Glenys fydd yn cychwyn ar ei thaith i Vancouver i briodas ei mab Aled, a phob bendith i Aled a Kelley ar eu priodas. Llongyfarchwyd Eryl ar ddod yn nain i Caio, mab bach i Rhodri a Catrin ac hefyd Gethin Wyn, ŵyr Rita ar ennill Gradd dosbarth cyntaf mewn Cerddoriaeth o Brifysgol Bangor.

Diolchodd Mair Price, y Llywydd i Rita, Mair Williams a Jen ac aelodau'r pwyllgor am eu holl waith dros y flwyddyn.

Aelodau'r pwyllgor oedd wedi rhoi y gwobrau raffl ac fe'u henillwyd gan Mair Wiliams, Eirlys Williams, Mabel Jones, ac Eirlys Sharpe. Mary Evans ddyfalodd y dyddiad cywir o'r dyddiadur - diolch i bawb a'n cefnogodd. Mair Read, yr is-lywydd ddiolchodd i'r swyddogion.

Bydd y gangen yn ail gychwyn ym mis Medi.
Swyddogion fydd -
Llywydd: Mair Read
Ysgrifennydd: Anita Owen
Trysorydd: Annwylyd Wyn Jones.

Ewch i wefan www.mywbethel.org i weld ein hynt a'n helynt dros y flwyddyn - diolch i Meic a Jen o gwmni Delwedd am drefnu.

CELF A CHREFFT Trefnwyd noson hynod o bleserus yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Diolch i bawb a drefnodd ac am y baned. Llongyfarchiadau i Alys Jones ar ddod yn ail a thrydydd gyda'i phaentiadau o Abaty.